

Ffactorau sydd yn dylanwadu ar rieni wrth iddynt ddewis
cyfrwng addysg gynradd i'w plant mewn ardal benodol yn
Sir Gaerfyrddin.

Llinos Mai Davies
Traethawd M.A.
2010

Crynodeb

Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yw creu cynnydd o 5% yn nifer siaradwyr y Gymraeg erbyn 2011 o gymharu â nifer Cyfrifiad 2001. Yn ôl Redknap (2006), golygai hynny gynnydd o 160,000. Er mwyn sicrhau'r cynnydd hwnnw, ystyrir bod gan y gyfundrefn addysg swyddogaeth allweddol. Yn ôl Redknap (2006), ymddengys y bydd angen cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sydd yn derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd i sicrhau'r twf angenrheidiol. Beth bynnag, er i'r ystadegau dros y blynyddoedd ddangos cynnydd amlwg yn nifer y disgyblion sydd yn mynychu sefydliadau cyfrwng-Cymraeg, gan gynnwys plant o gefndiroedd ieithyddol Cymraeg, Saesneg a chymysg, ac er gwaethaf tystiolaeth gadarnhaol iawn o faes ymchwil am fanteision gwybyddol a deallusol dwyieithrwydd (Peal a Lambert, 1962; Cummins, 1987; May *et al.*, 2004), dengys ystadegau LICC bod y mwyafrif o rieni yn dewis addysg cyfrwng-Saesneg i'w plant. Yn wyneb dymuniad LICC i gynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg felly, rhaid ystyried beth fydd effaith y tueddiadau presennol ar y nod hwnnw.

Seilwyd yr ymchwil hwn ar arolwg o sylwadau ac agweddau rhieni sydd wedi gosod eu plant mewn modelau gwahanol o ddarpariaeth ieithyddol, sef ysgol gynradd Gymraeg benodedig (ysgol Categori 1), ysgol gynradd cyfrwng-Saesneg (ysgol Categori 5) ac ysgol dwy ffrwd (ysgol Categori 2). Ystyrir pa ffactorau fu'n ddylanwadol wrth i'r rhieni hynny ddewis ysgol i'w plant ynghyd â'r ffactorau a'u rhwystrodd rhag

dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Daw'r ymchwil hwn i'r casgliad bod lle i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg yn fwy egniol yn lleol ac yn genedlaethol.

Byrfoddau

AALI/AauALI	-	Awdurdod(au) Addysg Lleol
BERA	-	British Education Research Association
CBAC	-	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
CA1	-	Cyfnod Allweddol Un
CA2	-	Cyfnod Allweddol Dau
CA3	-	Cyfnod Allweddol Tri
CA4	-	Cyfnod Allweddol Pedwar
LICC	-	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhieni A	-	Rhieni cyfrwng-Cymraeg
Rhieni B	-	Rhieni cyfrwng-Saesneg
TGAU	-	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
Ysgol A	-	Ysgol Categori 1
Ysgol B	-	Ysgol Categori 5
Ysgol C	-	Ysgol Categori 2
Ysgol Ca	-	Ysgol C - ffrwd Gymraeg yn unig
Ysgol Cb	-	Ysgol C - ffrwd Saesneg yn unig

Diolchiadau

Diolch i Mr Vernon Morgan, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Gaerfyrddin, ac i benaethiaid y tair ysgol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil am eu hamser a'u caniatâd i gasglu data oddi wrth rieni disgyblion yr ysgolion perthynol a'r cyfle i gynnal cyfweiliadau. Diolch i'r rhieni a lenwodd yr holiadur. Diolch hefyd i'r Dr Hywel Glyn Lewis am ei gyfarwyddyd ar hyd cyfnod yr ymchwil.

Cynnwys

	Tudalen
Rhestr o'r Tablau	1
Rhestr o'r Siartiau Cylch	5
Rhestr o'r Atodiadau	6
Pennod 1 Cyflwyniad: Cefndir a chyd-destun gwleidyddol yr ymchwil	7
Pennod 2 Adolygiad o'r Llenyddiaeth	27
Pennod 3 Methodoleg	52
Pennod 4 Dadansoddiad a Chanlyniadau	58
Pennod 5 Trafodaeth	103
Pennod 6 Argymhellion	114
Atodiadau	123
Cyfeiriadau	132

Tablau

- Tabl 1: Niferoedd siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd rhwng 1901-1991.
- Tabl 2: Nifer siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran, yn ôl Cyfrifiad 2001.
- Tabl 3: Nifer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng-Cymraeg.
- Tabl 4: Canran disgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn asesiad athro, pynciau di-graidd yn CA3.
- Tabl 5: Canran disgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn asesiad athro yn y Gymraeg yn CA3.
- Tabl 6: Cofrestriadau a chanran canlyniadau Cymraeg yn ôl grŵp pwnc 2007/08.
- Tabl 7: Disgyblion yr addysgir y Gymraeg iddynt mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl grŵp blwyddyn a math o gwrs, yn 2007/08.
- Tabl 8: Cyfrannau cyfartalog o ddisgyblion Cymru sydd yn cyrraedd y lefel disgwylidig neu uwch yn ôl pwnc yn 2009.
- Tabl 9: Canrannau a enillodd 5 TGAU A*-C neu fwy (neu Lefel cyfatebol) yn ôl cyfrwng dysgu.
- Tabl 10: Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl cyfrwng dysgu.
- Tabl 11: Dangosyddion Perfformiad Ysgolion - CA4.
- Tabl 12: Niferoedd yn ysgolion A, B ac C.
- Tabl 13: Nifer yr holiaduron a gwblhawyd.

- Tabl 14: Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth gan yr AALI ynglŷn â dewis ysgol gynradd.
- Tabl 15: Nifer y rhieni yn ôl ysgol a gafodd wybodaeth drwy ffynhonnell arall ynglŷn â dewis ysgol gynradd.
- Tabl 16: Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth gan yr AALI ynglŷn â dewis cyfrwng addysg.
- Tabl 17: Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth drwy ffynhonnell arall ynglŷn â dewis cyfrwng addysg.
- Tabl 18: Gwybodaeth (a'i ffynhonnell) a dderbyniwyd yn ôl ysgol.
- Tabl 19: Rhesymau a roddwyd dros ddewis yr ysgol neu ffrwd.
- Tabl 20: Rhesymau rhieni yn ôl eu dewis o gyfrwng addysg.
- Tabl 21: Cryfder dylanwad gwahanol ffactorau ar ddewis rhieni o ysgol.
- Tabl 22: Dylanwad lleoliad yr ysgol.
- Tabl 23: Pellter yr ysgol o'r cartef.
- Tabl 24: Nifer disgyblion Ysgol C sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
- Tabl 25: Dylanwad canlyniadau profion athrawon.
- Tabl 26: Dylanwad adroddiad arolygiad.
- Tabl 27: Dylanwad cyfrwng yr addysg.
- Tabl 28: Nifer y rhieni yn ôl ysgol a ystyriodd osod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol.

- Tabl 29: Rhesymau rhieni dros beidio â gosod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol.
- Tabl 30: Rhesymau rhieni dros beidio ag ystyried cyfrwng addysg gwahanol.
- Tabl 31: Atebion rhieni Ysgol C i Gwestiwn 29.
- Tabl 32: Ymatebion rhieni dros beidio â gosod eu plant yn Ysgol C petai'r ysgol ond yn cynnig un cyfrwng addysg.
- Tabl 33: Dylanwad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Tabl 34: Dylanwad enw da'r ysgol/ffrwd.
- Tabl 35: Dylanwad ysgol gyfun y dyfodol.
- Tabl 36: Ysgol gyfun y bwriedir ei mynychu ym Mlwyddyn 7.
- Tabl 37: Dylanwad cyfleodd allgyrsiol.
- Tabl 38: Dylanwad mynychu noson rieni cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol.
- Tabl 39: Dylanwad cwrdd â'r Pennaeth.
- Tabl 40: Dylanwad aelodau'r teulu.
- Tabl 41: Dylanwad ffrindiau.
- Tabl 42: Iaith gyntaf y rhieni yn ôl ysgol.
- Tabl 43: Nifer rhieni, yn ôl ysgol, a allai siarad Cymraeg.
- Tabl 44: Ieithoedd heblaw Saesneg a siaredir gan rieni.

- Tabl 45: Y rhieni, yn ôl cyfrwng addysg y plant, sy'n ddwyieithog neu'n amlieithog.
- Tabl 46: Nifer, yn ôl ysgol, a gredai bod manteision i fod yn ddwyieithog.
- Tabl 47: Manteision honedig dwyieithrwydd.
- Tabl 48: Canfyddiad rhieni o fanteision dwyieithrwydd yn ôl eu dewis o gyfrwng addysg i'w plant.
- Tabl 49: Ymatebion Rhieni A a Rhieni B i Ddatganiad 3.
- Tabl 50: Ymatebion Rhieni A a Rhieni B i Ddatganiad 4.
- Tabl 51: Ymatebion rhieni, yn ôl cryfder, i Gwestiwn 31.
- Tabl 52: Yr ymateb i'r gosodiad: Hoffwn i'm plentyn allu siarad Cymraeg yn rhugl.
- Tabl 53: Yr ymateb i'r gosodiad: Dylai pob plentyn adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg, gwaeth pa ysgol y mynychu.
- Tabl 54: Cenedligrwydd y rhieni.
- Tabl 55: Cymhwyster academaidd uchaf rhieni.

Rhestr o'r Siartiau Cylch

- Siart Cylch 1: Nifer y rhieni a edrychodd ar ganlyniadau asesiadau athrawon.
- Siart Cylch 2: Nifer y rhieni a gymharodd ganlyniadau asesiadau athrawon ysgolion gwahanol.
- Siart Cylch 3: Prif iaith cyfathrebu â'r plentyn gartref (Cyfrwng Cymraeg).
- Siart Cylch 4: Prif iaith cyfathrebu â'r plentyn gartref (Cyfrwng Saesneg).

Rhestr o Atodiadau

Atodiad 1	Categoriâu ysgolion cynradd
Atodiad 2	Categoriâu ysgolion uwchradd
Atodiad 3	Copi o'r holiadur.
Atodiad 4	Llythyr gan Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin.
Atodiad 5	Copi o gwestiynau'r cyfweiliad.

PENNOD 1

Cyflwyniad: Cefndir a chyd-destun gwleidyddol yr ymchwil

Yn ystod yr ugeinfed ganrif bu gostyngiad parhaus yn nifer siaradwyr y Gymraeg. Rhwng Cyfrifiad 1901 a 1991 bu gostyngiad cyson yn nifer personau tair oed a throsodd a fedrai siarad Cymraeg, gostyngiad o 30.5 (49% i 18.5%) yng nghanran y boblogaeth. Dengys Tabl 1 nifer pwynt canran a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg ym mhob Cyfrifiad yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Tabl 1: Niferoedd siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd rhwng 1901-1991.

Blwyddyn	Personau (miloedd)	Canran
1901	929.8	49.9
1911	977.4	43.5
1921	922.1	37.1
1931	909.3	36.8
1951	714.7	28.9
1961	656.0	26.0
1971	524.4	20.8
1981	508.2	18.9
1991	500.0	18.5

(LICC, 2003: 3)

Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain y gwelwyd y cynnydd cyntaf er Cyfrifiad 1901. Yng Nghyfrifiad 2001, nododd 582,368 (20.8%) o bobl Cymru (tair oed a throsodd) y gallu i siarad Cymraeg, gyda'r canran

uchaf o siaradwyr ymysg plant a phobl ifanc 5-15oed. Dengys Tabl 2 niferoedd a fedrai siarad Cymraeg yn ôl oed.

Tabl 2: Nifer siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran, yn ôl Cyfrifiad 2001.

Oed	3-4	5-15	16-19	20-44	45-64	65-74	Dros 75
Nifer	13,239	171,168	40,548	146,227	112,742	47,692	50,752
Canran yn ôl oed	18.8	40.8	27.6	15.5	15.6	18.0	21.0

(Ystadegau Gwladol; 2003: 240)

Caiff y cynnydd hwn ei gysylltu i raddau helaeth â llwyddiant addysgu'r

Gymraeg i blant yn yr ysgol gan gynnwys addysgir Gymraeg fel ail iaith:

'Mae'n fwy na thebyg bod y cynnydd mewn siarad Cymraeg a gofnodir yn y grwpiau oed ysgol yn ddyledus iawn i ddatblygiadau addysgol.'

(LICC: 2003: 6). Fodd bynnag, nid adlewyrcha'r niferoedd oed ysgol

oedd yn siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad y niferoedd a gafodd eu

hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf:

'The Census results for school age children do not parallel the education statistics. The Census questions does not ask whether a person can speak Welsh fluently so that the discrepancies noted so far between the Census statistics and school statistics relating to fluent speakers should not come as a surprise' (Jones, 2008: 550).

Er i'r ysgol Gymraeg gyntaf gael ei hagor ym 1947, mae addysg

cyfrwng-Cymraeg wedi ffynnu. Sefydlwyd ysgolion cyfrwng-Cymraeg

yn wreiddiol mewn ymateb i alw Cymry-Cymraeg am addysg cyfrwng-

Cymraeg i'w plant. Beth bynnag, dros y blynyddoedd, oherwydd

llwyddiant academaidd yr ysgolion a'i llwyddiant i drochi plant o

gefndiroedd di-Gymraeg yn yr iaith, mae rhagor a rhagor o rieni di-Gymraeg wedi dewis gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg.

Rhennir ysgolion cynradd yn bum categori yn ôl cyfrwng yr addysg a iaith yr ysgol (Atodiad 1). Yn y traethawd hwn, pan gyfeirir at ysgolion cyfrwng-Cymraeg, fe gyfeirir at ysgolion lle addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf a, phan gyfeirir at ysgolion cyfrwng-Saesneg, fe gyfeirir at ysgolion lle addysgir y Gymraeg fel ail iaith. Rhennir ysgolion uwchradd yn bedwar grwp (Atodiad 2), gydag ysgolion yn y grŵp dwyieithog yn cael eu rhannu ymhellach yn bedair is-adran. Yn y traethawd hwn defnyddir y term 'ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg' i gyfeirio at ysgolion uwchradd lle addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf.

Bellach mae 438 o ysgolion cynradd a 55 o ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg yn addysgu dros 90,000 o blant Cymru. Dengys Tabl 3 y cynnydd fu rhwng 1989/90 a 2008/09 yn nifer yr ysgolion hynny a nifer y disgyblion a addysgwyd trwy'r Gymraeg.

Tabl 3: Nifer ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng-Cymraeg.

	Ysgolion cynradd	Disgyblion	Ysgolion Uwchradd	Disgyblion
1989/90	417	45,387	42	26,058
2008/09	438	50,244	55	41,916

(LICC, 2009a: 66, 67, 68)

Ar draws y gyfundrefn addysg yn gyffredinol, mae statws y Gymraeg, yr amser a ddyrennir i ddysgu'r Gymraeg, a safon addysgu'r Gymraeg yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol ac o ardal i ardal. O ganlyniad nid oes cysondeb ar draws y ddarpariaeth:

'Mae'r ddarpariaeth wedi datblygu mewn ffyrdd gwahanol ledled Cymru mewn ymateb i alwadau gwahanol ac o ganlyniad mae'n anghyson' (LICC, 2009b: rhagair).

Nodir yn y ddogfen ymgynghorol ddiweddar *'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'* bod angen i'r system addysg *'...fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol awdurdodau a rhanbarthau.'* (LICC, 2009b: 40). Canlyniad hynny yw y gall y ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg barhau i amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol awdurdodau addysg lleol (AauALI) ac i'r graddau y digwyddai yn y gorffennol, fel y dangoswyd gan Lewis (1999). Yng Ngwynedd addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf i 96.1% o ddisgyblion Blynyddoedd 1-6. Yn Sir Casnewydd addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf i 3.1% yn unig o ddisgyblion Blynyddoedd 1-6 (LICC, 2009a: 172). Gan nad yw'r llywodraeth yn gosod meincnodau ar AauALI, adlewyrcha'r Gymraeg mewn ysgolion *'...batrymau defnydd ieithyddol yn y gymuned ehangach'* (LICC, 2009b: 40).

Gwelir amrywiaethau yn y sector uwchradd hefyd. Addysgwyd y Gymraeg fel iaith gyntaf i 81.4% o ddisgyblion Blynyddoedd 7-9 yng Ngwynedd yn 2008/09, ond nid addysgwyd y Gymraeg fel iaith gyntaf i un disgybl yng Nghasnewydd gan nad oes ysgol uwchradd Gymraeg yn bodoli yn y sir honno. Os dymuna disgyblion barhau â'u haddysg trwy

gyfrwng y Gymraeg, rhaid iddynt deithio i ysgol Gymraeg mewn sir arall. Pe na bai eu hymrwymiad at yr iaith yn gryf, ac er mwyn hwylustod, mae'n debyg y byddent yn dewis mynychu ysgol uwchradd leol cyfrwng-Saesneg. Golygai hynny symud o ddysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf i'w dysgu fel ail iaith.

Pan newidir o astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf mewn un cyfnod allweddol i'w hastudio fel ail iaith mewn cyfnod allweddol arall, ceir llithriad ieithyddol. Casglodd Gruffudd (2005) fod '*...symud cyffredinol o 22% o iaith gyntaf at ail iaith trwy Gymru yn digwydd rhwng CA2 a CA3*'.¹ (Gruffudd, 2005: 2).

Yn ôl Estyn ni ddylai disgyblion symud o astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf i'w hastudio fel ail iaith rhwng gwahanol gyfnodau allweddol.

Yn ogystal â digwydd mewn siroedd lle na ddarperir addysg uwchradd cyfrwng-Cymraeg, gall llithriad ieithyddol ddigwydd mewn siroedd lle darperir hynny e.e. Sir Gaerfyrddin. Ymddengys yn ôl y niferoedd sydd yn sefyll arholiad Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith bod llithriad ieithyddol ar raddfa fawr yn digwydd o fewn y sir honno. Darganfu Gruffudd (2005) fod 33.4%² o ddisgyblion wedi symud o raglen astudio iaith gyntaf i raglen astudio ail iaith rhwng Cyfnod Allweddol 2 (CA2) a Chyfnod Allweddol 3 (CA3) yn y sir honno.

^{1,2} CA2 1996-1999; CA3 1999-2002

Nodir yng Nghynllun Addysg Sir Gaerfyrddin bod '*... trosglwyddo o'r iaith gyntaf i'r ail iaith yn groes i feddylfryd y continwmm ac i'r egwyddor o ennyn dilyniant, parhad a chynnydd ym meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg.*' (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2006: pwynt 6.2.5).

Yn ôl Gruffudd (2005), mae methiant AauALI i fonitro dilyniant ieithyddol a'u diffyg i roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysgol dilyniant ieithyddol yn ddau ffactor a all achosi llithriad ieithyddol.

Un rheswm pam mae llithriad ieithyddol yn digwydd rhwng CA2 - CA3 yn Sir Gaerfyrddin yw bod rhieni disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd cyfrwng-Cymraeg yn cael dewis gosod eu plant mewn ysgol uwchradd cyfrwng-Saesneg os dymunant:

'Mae disgyblion sydd yn mynychu ysgolion cynradd Categori 'A' yn cael dwy ysgol wedi nodi ar ei ffurflen. Y ddwy ysgol yw'r ysgol uwchradd leol a'r ysgol uwchradd ddwyieithog/Gymraeg yn ardal cyfeiriad cartref y plentyn.'

(Cyngor Sir Caerfyrddin, 2009: 8)

Gan nad yw ysgolion cyfrwng-Saesneg yn addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf, drwy roi dewis cyfrwng addysg uwchradd i rieni, caniatâ'r AALI i lithriad ieithyddol ddigwydd. Yn y ddogfen 'Arolygiad o Wasanaethau Gwella Ysgolion AALI Sir Gaerfyrddin' gan Estyn, nodir:

'Mae'r diffyg dilyniant hwn mewn Cymraeg wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd wedi peri pryder i'r Cyngor ers tro,...' (2007: 3).

Y cwestiwn sydd yn codi felly yw, a ddylid rhoi dewis o ysgol uwchradd i rieni?.

Drwy symud o gyfrwng Cymraeg yn y cynradd i gyfrwng Saesneg yn yr uwchradd mae nifer fawr o ddisgyblion a ddylai fod yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn sefyll yr arholiad Ail Iaith, arholiad yn ôl rheoliadau Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) nad oes hawl ganddynt i'w sefyll. Nodir ym manyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith bod yr arholiad hwnnw ar gyfer disgyblion:

- *nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt*
- *a dderbyniodd eu gwybodaeth o'r Gymraeg yn bennaf trwy raglen astudio Cymraeg Ail Iaith yn yr ysgol gynradd a/neu uwchradd*
- *nad yw'r Gymraeg yn iaith bob dydd y cartref*
- *nad ydynt wedi dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3.'*

(CBAC, heb ei ddyddio: 6).

Noda Gruffudd (2005) fod y ffaith bod rhieni ac ysgolion yn cael eu denu gan y posibilrwydd o weld eu plant/disgyblion yn ennill gwell canlyniadau yn annog llithriad ieithyddol; sylw hefyd a wneir gan Estyn:

'Too many pupils in bilingual secondary schools follow Welsh second language courses and sit GCSE Welsh second language even though they may have undertaken National Curriculum assessments in Key Stage 2 and Key Stage 3 in Welsh first language. This strategy serves to boost schools' overall results, with more pupils gaining A-C in Welsh second language.'*

Problem arall, fel y cydnabu'r llywodraeth, yw na chaiff nifer fawr o ddisgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith eu cofrestru i sefyll arholiad yn y pwnc:

'Mae canrannau'r disgyblion na chânt eu cofrestru ar gyfer achrediad allanol yn peri pryder.' (LICC, 2009b: 74).

Un rheswm pam fod disgyblion yn tangyflawni yw oherwydd bod

safonau mewn Cymraeg ail iaith yn isel yn gyffredinol:

'Nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud gystal ag y gallen nhw mewn Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 am nad ydyn nhw'n cael digon o amser addysgu, ac mae ansawdd yr addysgu'n wael yn gyffredinol. Mae gormod o ddisgyblion yn methu ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.' (LICC, 2009b: 74)

Nododd Prif Arolygwr Estyn yn ei adroddiad blynyddol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru (2007-2008): *'Teaching in Welsh second language is much worse than in other subjects and is worse now than it was in the past'* (Estyn, 2009: 6). Pan gymherir cyraeddiadau mewn Cymraeg ail iaith yng CA3 â chyraeddiadau yn y pynciau di-graidd eraill, gwelir mai'r cyraeddiadau mewn Cymraeg ail iaith yw'r isaf (Tabl 4).

Tabl 4: Canran disgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn asesiad athro, pynciau di-graidd yn CA3.

	Arlun.	DaTh	Daear.	Hanes	TGCh	Iaith DF	Cerdd	Add. Gorff.	Cym. ail iaith
2001	68	66	63	64	62	44	58	61	40
2002	71	68	64	65	64	46	63	65	42
2003	72	69	67	66	69	49	65	67	44
2004	74	70	68	68	69	52	69	68	44
2005	74	73	70	69	72	53	69	70	48
2006	76	73	71	70	73	56	71	71	49
2008	75	75	70	71	72	58	72	72	51
2008	75	75	72	72	76	62	71	72	54
2009	75	75	72	72	77	64	73	72	56

(Gwefan StatsCymru)

Er gwaethaf y ffaith bod safonau Cymraeg ail iaith, ar y cyfan, yn isel, honna Llywodraeth Cynulliad Cymru bod:

'... addysgu Cymraeg fel pwnc wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob disgybl o oed ysgol statudol fel bod yr holl blant mewn ysgolion a gynhelir, pa un a ydynt yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog' (LLCC, 2003: 40).

Darpariaeth addysg Gymraeg

Defnyddir y term 'addysg ddwyieithog' fel ymbarél sydd yn disgrifio sawl gwahanol fath o ddarpariaeth ieithyddol. Disgrifia Cazden a Snow (1990) addysg ddwyieithog fel '*a simple label for a complex phenomenon*'. Yn y sector cynradd yng Nghymru, darperir tri math o 'addysg ddwyieithog' sef: addysg ddwyieithog gynhaliol-gyfoethogiadol (enrichment-maintenance bilingual education), addysg ddwyieithog drochol (immersion bilingual education) ac addysg lle addysgir Cymraeg fel ail-iaith ac fel pwnc yn unig. Darperir addysg ddwyieithog gynhaliol-gyfoethogiadaol i siaradwyr Cymraeg sydd yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg neu ffrwd A mewn ysgolion dwy ffrwd. O fewn yr un gyfundrefn gyffredinol, darperir addysg drochol i blant o gefndiroedd di-Gymraeg. Seilir addysg drochol ar ddewis. Rhaid i rieni ddewis rhaglen drochi i'w plant: '*An immersion programme involves children from the linguistic majority of a country (with a high status mother tongue) choosing to be taught through the medium of a foreign language*' (Skutnabb-Kangas, 1981: 157). Yn olaf, addysgir Cymraeg ail iaith fel pwnc mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg. Mewn ysgolion lle addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf, addysgir y Saesneg fel pwnc craidd o CA2 a chaiff dwyieithrwydd ei feithrin yn yr unigolyn. O ganlyniad,

ystyrir y mathau yma o addysg ddwyieithog yn rhaglenni dwyieithog 'cryf'.

Yn y sector uwchradd yn Sir Gaerfyrddin addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf i ddisgyblion sydd yn mynychu ysgolion uwchradd Cymraeg penodedig (lle addysgir mwyafrif y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg) neu ysgolion Cymraeg traddodiadol (lle gall disgyblion ddewis astudio 80%, 60% neu 40% o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg neu bopeth trwy gyfrwng y Saesneg). Mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg addysgir y Gymraeg fel pwnc yn unig.

Er yr honnir mai dwyieithrwydd yw'r nod ieithyddol mewn ysgolion lle addysgir Cymraeg fel ail iaith am ychydig oriau'r wythnos, nid hynny yw'r deilliant. Oherwydd na chaiff dwyieithrwydd ei feithrin, ystyrir y math hwn o addysg ddwyieithog yn rhaglen addysg ddwyieithog 'wan'.

Cyraeddiadau Ieithyddol

Tyn canlyniadau asesiadau athrawon a chanlyniadau TGAU sylw at y ffaith bod gwahaniaethau rhwng cyraeddiadau ieithyddol disgyblion sydd yn cael addysg cyfrwng-Cymraeg a disgyblion sydd yn cael addysg cyfrwng-Saesneg. Dengys canlyniadau asesiadau athrawon CA3 yn 2009 bod 75% o ddisgyblion ysgolion Cymraeg wedi cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg o'u cymharu â 56% o ddisgyblion ysgolion cyfrwng-Saesneg. Ers nifer o flynyddoedd, mae canran uwch o ddisgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf wedi cyrraedd

Lefel 5 neu uwch mewn asesiad athro (CA3) o'i gymharu â chanran disgyblion Cymraeg ail iaith (Tabl 5).

Tabl 5: Canran disgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn asesiad athro yn y Gymraeg yn CA3.

	Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (Cymraeg iaith gyntaf)	Ysgolion Cyfrwng Saesneg (Cymraeg ail iaith)
2008	72	54
2007	70	51
2006	72	49
2005	73	48

(Gwefan StatsCymru)

Parha'r gwahaniaethau rhwng cyraeddiadau disgyblion ysgolion Cymraeg a disgyblion ysgolion Saesneg yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4). Isod, edrychir ar ganlyniadau TGAU Cymraeg. Ni chymherir yn union ddwy raglen.

Tabl 6: Cofrestriadau a chanran canlyniadau Cymraeg yn ôl grŵp pwnc 2007/08

	Nifer cofrestriadau	A*	A	B	C	D	E	F	G	A*-C	A*-G	Dim gradd wedi'i dyfarnu
Cymraeg iaith gyntaf	5,388	3	11	26	32	19	3	2	1	73	100	-
Cymraeg Ail iaith	9,997	9	16	16	30	15	8	4	2	70	99	1
Cymraeg Ail iaith (cwrs byr)	10,929	3	4	6	33	20	15	11	6	45	97	3

(LICC, 2009c: 22, 24)

Yn 2007/08 cofrestrwyd 5,388 o ddisgyblion i sefyll arholiad Cymraeg iaith Gyntaf. O'r rhain llwyddodd pob un (100%) i ennill TGAU A-G mewn Cymraeg gyda 73% yn ennill gradd A*-C. Yn yr un flwyddyn cofrestrwyd 9,997 i sefyll arholiad TGAU mewn Cymraeg ail iaith a chofrestrwyd 10,929 i sefyll arholiad TGAU cwrs byr³. Llwyddodd 99% i ennill TGAU llawn A-G, gyda 71% yn ennill gradd A*-C, a 97% i ennill hanner TGAU A-G gyda 46% yn ennill gradd A*-C.

Wrth gymharu canlyniadau TGAU Cymraeg 2007/08 â'r niferoedd oedd yn astudio'r Gymraeg y flwyddyn honno gwelir bod y canran a enillodd TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith hyd yn oed yn is.

Tabl 7: Disgyblion yr addysgir y Gymraeg iddynt mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, yn ôl grŵp blwyddyn a math o gwrs 2007/08

	BI.7	BI.8	BI.9	BI.10	BI.11	Cyfanswm
Yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf	5,666	5,663	5,820	5,413	5,561	28,123
Canran	16.5	16.3	16.2	14.8	14.9	15.7
Yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith	28,533	28,955	29,803	90,705	31,340	149,339
Canran	83.1	83.1	83.2	84.2	83.9	83.5
Nad ydynt yn dysgu'r Gymraeg o gwbl⁴	138	227	208	352	472	1,397
Canran	0.4	0.7	0.6	1.0	1.3	0.8
Cyfanswm	34,337	34,845	35,831	36,470	37,373	178,856

(LICC, 2008b: 78)

³ Mae hwn yn arwain at hanner TGAU

⁴ Yn cynnwys disgyblion oedd wedi eu datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol oherwydd datganiad AAA

O'r Tablau uchod gwelir yn 2007/08:

- bod 28,123 (15.7%) o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 7-11 yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf a 149,339 (83.5%) yn ei dysgu fel ail iaith. Nid oedd 1,397 (0.8%) o ddisgyblion yn dysgu'r Gymraeg o gwbl.
- bod 5,561 (14.9%) o ddisgyblion Blwyddyn 11 Cymru yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf a 31,340 (83.9%) yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith.
- o'r 5,561 oedd yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf, cofrestrwyd 5,388 (97%) i sefyll TGAU Cymraeg (iaith).
- o'r 31,340 oedd yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith cofrestrwyd 20,926 (67%) i sefyll arholiad yn y Gymraeg.
- o'r holl ddisgyblion oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, enillodd 97% TGAU llawn yn y Gymraeg (iaith gyntaf). O'r disgyblion oedd yn dysgu Cymraeg fel ail iaith enillodd 32% TGAU llawn yn y Gymraeg a 35% hanner TGAU.

Ymddengys felly, yr atgyfnertha canlyniadau Aseidiadau Athrawon a chanlyniadau TGAU Cymraeg y farn mai addysg ddwyieithog gynhaliol ac addysg ddwyieithog drochol yw'r rhaglenni addysg sydd yn meithrin dwyieithrwydd. Dyma'r ddarpariaeth ieithyddol a fydd yn cynorthwyo LICC i gyflawni'r nod a amlinellir yn y ddogfen 'Iaith Pawb', sef, erbyn 2011, sicrhau cynnydd yng nghanran y bobl Cymru sydd yn gallu siarad Cymraeg 'o'r ffigwr a ddaw i'r amlwg o gyfrifiad 2001' (LICCC, 2003: 11).

Yn ôl Redknap (2006), awgryma'r targed hwn y bydd angen cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg o 582,000 yn 2001 i tua 740,000 erbyn Cyfrifiad 2011 - cynnydd o tua 160,000, ac er mwyn llwyddo i gyrraedd y targed hwn y bydd angen tua 50,000 yn rhagor o blant yn siarad Cymraeg. Golyga hyn ddyblu'r ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg.

Cyfeiria Fishman (1991) at bwysigrwydd swyddogaeth y system addysg yn y broses o wrthdroi dyfudiad iaith. Yn ôl Redknap (2006), mae '*... addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog yn allweddol i'r nod o greu Cymru ddwyieithog*' (2006: 3), sef gweledigaeth hir dymor LICC. Cred Baker (1990) bod dyfodol yr iaith Gymraeg yn dibynnu ar dwf addysg ddwyieithog gynhaliol: '*Simply stated, without the growth of bilingual education, there is good reason to believe the Welsh language would not survive*' (Baker, 1990: 93). Cytuna Malherbe (1946) a ysgrifennodd dros hanner canrif yn ôl, mai addysg ddwyieithog gynhaliol yw'r unig ateb '*... whereas the unilingual school is a device which avoids the solution of our difficulties by side-stepping them, the bilingual school is the hard way. But it is the only sure and true way in the long run*' (Malherbe, 1946). Ymddengys, felly, mai'r sector cyfrwng-Cymraeg a all gyfrannu fwyaf at wrthdroi dirywiad ieithyddol y gorffennol.

Yn ôl Jones (2005), mae angen newid radical:

'Pan fydd ysgol neu Awdurdod yn 'methu', fe gymerir camau eithriadol i'w hadfer. Onid oes angen i'r Cynulliad gydnabod

'methiant' y gyfundrefn addysgol bresennol a chymryd camau eithriadol i hyrwyddo addysg ddwyieithog?' (Jones, 2005: 21).

Nodir yn 'Iaith Pawb' bod '*... lles tymor-hir yr iaith yn dibynnu ar alluogi cynifer o blant cyn oed ysgol a phobl ifanc ag y bo modd i gael gfael ar yr iaith a hynny mor gynnar ag y bo modd.* (LICC, 2003: 11).

Cyflwynwyd 'Datblygu'r Gymraeg' fel maes dysgu statudol i ddisgyblion y 'Cyfnod Sylfaen'. Cwricwlwm sydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer plant 3-7 oed yng Nghymru yw hwn ac erbyn mis Medi 2010 bydd pob plentyn 3-7 oed yn ei ddilyn.

Ond er bod 'Datblygu'r Gymraeg' yn faes dysgu statudol, ymddengys nad dwyieithrwydd yw'r nod ieithyddol ar gyfer pob disgybl. Nodir yn y ddogfen '*Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7oed yng Nghymru*':

'Dylai ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, sydd yn cynorthwyo plant i fod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, barhau i weithredu a datblygu eu polisiau iaith cyfredol. ... Mewn ysgolion a lleoliadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylai sgiliau Cymraeg y plant gael eu datblygu'n raddol trwy gydol y Cyfnod Sylfaen... Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dylai plant ddysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd eithaf eu gallu.'

(LICC, 2008a: 27).

Cred Baker (2001) y dylai addysg ddwyieithog ddileu unrhyw anghydraddoldeb. Noda: '*Bilingual education should attempt to right such inequality and injustice by positive discrimination. Bilingual education should be interventionist, even clashing with the majority viewpoints.*' (Baker, 2001: 392). Cwestiwn sy'n codi felly yw, a ddylai'r

llywodraeth, er mwyn rhoi'r un cyfle i bob plentyn ddod yn ddwyieithog, osod yr un nodau ieithyddol ar bob ysgol?

O safbwynt hyrwyddo polisïau iaith, troedia cynllunwyr iaith a swyddogion addysg yn ofalus ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol.

Esbonia Gardner:

'Planners have to face the difficult task of deciding not only what kind of promotion is likely to be the most effective, but also what types of promotion are least likely to antagonise the majority of the population who have a very limited grasp of the threatened language.' (Gardner, 1993).

Dywed y ddogfen ymgynghorol *'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'*, *'...nid yw pob rhiant am i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg.'* (LICC, 2009b: 65). Ond, os mai creu Cymru ddwyieithog yw'r nod, ac os daw dwyieithrwydd â manteision i'r unigolyn, y cwestiwn sy'n codi yw a ddylai'r llywodraeth ddefnyddio'r gyfundrefn addysg, fel y cred Baker (2001), i ddileu unrhyw anghydraddoldeb a sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i ddod yn ddwyieithog er gwaethaf dymuniadau rhieni?

Yn ogystal â dileu anghydraddoldeb rhwng disgyblion, awgryma

Cummins (1986) fod addysg ddwyieithog yn fwy cost effeithiol:

'at a time when education systems everywhere are experiencing financial restraint, economic aspects of language planning need to be taken into account. Immersion or bilingual programmes...need cost no more than monolingual programmes but they produce dramatically better results. In other words, they are considerably more cost effective.' (Cummins, 1986: 17).

Beth bynnag, yn hytrach na chyflwyno newidiadau radical i'r gyfundrefn addysg, a fyddai yn cywiro methiannau presennol y sector cyfrwng-Saesneg i greu siaradwyr Cymraeg, ceisia'r llywodraeth gadw'r ddysgl wleidyddol yn wastad drwy gynnig dewis i rieni.

Yn y ddogfen ymgynghorol '*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*' (LICC, 2009b) nodir:

- '*Rydym am weld system sydd yn **ymateb** i alw'r cyhoedd am gynydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.*' (LICC, 2009b: 1). (Ychwanegwyd llythrennau bras)
- '*Cael system addysg a hyfforddiant sydd yn **ymateb** mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r **galw** cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg sydd yn cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ...*' (LICC, 2009b: 5). (Ychwanegwyd llythrennau bras)
- '*Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail **ymateb** yn bositif i alw gan rieni.*' (LICC, 2009b: 35). (Ychwanegwyd llythrennau bras)

Yn hytrach na chyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn addysg a fyddai'n cynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg, ymddengys y bydd unrhyw dyfiant yn y sector cyfrwng-Cymraeg yn parhau i ddibynnu ar un o ddau beth, sef, cynnydd yn nifer y rieni sydd yn **dewis** gosod eu plant mewn

addysg cyfrwng- Cymraeg, a/neu ymrwymiad AauALI i bolisïau

ieithyddol cadarn, fel y gwelir gan Gyngor Gwynedd:

‘Y nôd yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol, golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a’r Saesneg.’ (Cyngor Sir Gwynedd, 2010: 7)

Hyrwyddir manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg i

wahanol raddau gan wahanol AauALI. Cymharer Cyngor Sir

Caerfyrddin â Chyngor Sir Powys. Ar safle we Cyngor Sir Powys:

- nodir y gall dwyieithrwydd ddod â manteision i blant
- esbonnir i rieni nad oes rhaid iddyn nhw fedru siarad Cymraeg er mwyn i’w plant gael addysg cyfrwng-Cymraeg
- esbonnir, os nad oes addysg cyfrwng-Cymraeg ar gael yn lleol, fe ddarperir trafndiaeth gan y Cyngor i’r ysgol cyfrwng-Cymraeg agosaf.
- ceir copi o’r llyfryn *‘Have you considered Welsh-medium education for your child?’* (Cyngor Sir Powys, heb ei ddyddio). Llyfryn ydyw sydd yn rhoi ffeithiau, ystadegau a chanlyniadau gwaith ymchwil ar ddwyieithrwydd ac addysg cyfrwng-Cymraeg i rieni mewn ffordd hygyrch a dealladwy.

Nid oes sôn ar safle we Cyngor Sir Caerfyrddin, nac yn y ddogfen

‘Gwybodaeth i Rien 2010 - 2011’ a gyhoeddir gan y Cyngor Sir, am

fanteision dwyieithrwydd nac am fanteision addysg cyfrwng-Cymraeg.

Cwestiwn a gododd un cyn-Gyfarwyddwr Addysg yn y sir honno un tro ac a adlewyrchai ddilema hyrwyddo addysg cyfrwng-Cymraeg o fewn cyfundrefn ehangach oedd: *'I ba raddau y gellir hyrwyddo addysg cyfrwng-Cymraeg ar draul addysg cyfrwng-Saesneg?'*.

Dengys Chin a Benne (1976) bod modd creu newid mewn cyfundrefn gorfforaethol mewn tair ffordd; sef yr empeiraidd-resymol; y normadol-ailaddysgol, a'r pŵer-orfodol. Dengys Lewis (1999) sut y gellir cymhwyso'r fframwaith hwnnw at ddibenion trafod datblygiad addysg cyfrwng-Cymraeg.

Trwy ddefnyddio'r dull 'empeiraidd-resymol', fe roddir gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd i rieni, ac fe greidir, ar sail darllen y wybodaeth honno, y gallant wneud penderfyniad rhesymegol i ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant.

Yr ail strategaeth yw'r dull 'normadol-ailaddysgol'. Dibynna'r dull hwn ar bobl yn cael eu 'hail addysgu' drwy ddilyn normau cymdeithasol dan ddylanwad grwpiau eraill.

Y dull pŵer-orfodol' yw'r drydedd strategaeth. Golyga hyn greu deddf gwlad a fydd yn gorfodi pob plentyn i dderbyn addysg ddwyieithog gynhaliol-gyfoethgiadol (addysg cyfrwng-Cymraeg gyflawn).

Er bod y llywodraeth yn awyddus i weld rhagor o blant yn dod yn ddwyieithog, ni orfodir dwyieithrwydd ar blant. Sefyllfa yw hon sydd heb newid ers bron hanner canrif ac sydd yn adlewyrchu safbwynt

Adroddiad Gittins (1967) dros ddeugain mlynedd yn ôl;

'Our ultimate hope is that this concept of bilingualism would extend to the whole of Wales... this should not imply any degree of compulsion... There should, indeed, be provision for opting out, but we hope that policy and practice will be so presented that the great majority of parents will... be persuaded to support bilingual education' (Y Cyngor Canol ar Addysg Cymru, 1967: 240).

Mae'r dasg o hyrwyddo addysg ddwyieithog, felly, yn parhau i fod yn seiliedig ar y ddwy strategaeth gyntaf. Ond drwy ddibynnu ar rieni i

bwysu a mesur manteision addysg ddwyieithog gynhaliol-

gyfoethogiadol, mae perygl creu sefyllfa o ddwyieithrwydd elitaidd.

Disgrifir dwyieithrwydd elitaidd gan Paulston fel, *'the privilege of middle-class, well-educated members of most societies'* (yn Harding, 1986:

24). O ganlyniad i hynny, gallai addysg cyfrwng-Cymraeg yng

Nghymru gael ei hystyried yn ddim mwy na rhyw fath o addysg 'elitaidd' ar gyfer plant pobl dosbarth canol yn unig.

PENNOD 2

Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Bwriedir yn y bennod hon gynnig adolygiad o lenyddiaeth berthnasol i'r ymchwil sydd dan sylw ac sydd yn ymwneud â ffactorau allweddol a all gymhell rhieni i ddewis addysg cyfrwng- Cymraeg i'w plant.

Ystyriwyd dwyieithrwydd ar un adeg yn rhywbeth negyddol. Dywed Thompson;

'There can be no doubt that the child reared in a bilingual environment is handicapped in his language growth. One can debate the issue as to whether speech facility in two languages is worth the consequent retardation in the common language of the realm.' (Yn Danesi, 1990: 64)

Bu gwaith ymchwil Peal a Lambert (1962) yn garreg filltir ym maes ymchwil i ddwyieithrwydd. Dangosai eu canlyniadau bod plant dwyieithog yn rhagori ar blant uniaith mewn profion deallusrwydd llafar a dilafar. Erbyn hyn, felly, credir bod dwyieithrwydd yn gaffaeliad i unigolyn: *'Bilingualism is no longer seen as a passing phase, but rather as something good and permanent, something to be striven for.'* (Skutnabb-Kangas, 1981: 69).

Tueddir rhannu ieithoedd yn ddau grŵp, sef ieithoedd uchel ac ieithoedd isel, yn ôl eu statws mewn perthynas â'i gilydd (Fishman, 1972). Ystyrir ieithoedd megis Ffrangeg, Saesneg ac Almaeneg yn ieithoedd uchel ac, oherwydd eu statws uchel, tuedda pobl fod yn awyddus i'w dysgu. Credir bod dysgu iaith a chanddi statws uchel yn

ychwanegu at sgiliau ieithyddol yr unigolyn ac, o ganlyniad, credir bod dwyieithrwydd yn rhywbeth cadarnhaol. Ieithoedd uchel mwyafrifol a ddysgir gan amlaf fel ail iaith a hynny gan grŵp lleiafrifol. Noda Skutnabb-Kangas: *'It has often been the weak oppressed linguistic minorities who have been forced to be bilingual, the powerless in society...'* (1981: 66). Os credir, felly, bod gan iaith statws isel, fel arfer mae llai o gymhelliant i bobl ei dysgu.

Yng Nghymru, er y lleihad parhaus yn nifer siaradwyr yr iaith yn y gorffennol, gellid dadlau bod statws y Gymraeg erbyn hyn wedi codi. Yn 2008/09 dysgai 18,220 o oedolion y Gymraeg fel ail iaith (Canolfan Cymraeg i Oedolion De Orllewin Cymru, 2010). Gwahaniaetha Gardner a Lambert (1972) rhwng dau wahanol fath o gymhelliant i ddysgu ail iaith sef 'cymhelliant integreiddiol' (integrative motivation) a 'chymhelliant cyfryngol' (instrumental motivation):

'...an 'instrumental' outlook, reflecting the practical value and advantages of learning a new language, and an 'integrative' outlook, reflecting a sincere and personal interest in the people and culture represented by the other group.'

(Gardner a Lambert, 1972 : 123)

Isod edrychir ar y ffactorau hynny o'r safbwynt hwnnw.

Cymhelliant Cyfryngol

Crynoha Baker (1998) nodweddion cymhelliant cyfryngol:

'An instrumental motivation to acquire or preserve a language is mostly self-oriented, individualistic and often related to the need to achieve success. Personal self-enhancement, self-

development or basic security and survival will be the utilitarian, pragmatic need of an individual.' (Baker, 1998: 651)

a. Manteision Economaidd

Yn aml ystyrir bod y gallu i siarad iaith arbennig yn gyfrwng i lwyddiant economaidd: *'Language knowledge is considered an important element of human capital and an economic asset to the individual'* (Jedwab, 2008). O ganlyniad: *'A minority language may be sacrificed on the alter of economic progress.'* (Baker, 1993: 51).

Cred Williams bod teyrngarwch at iaith wedi ei seilio ar ffactorau economaidd: *'Language allegiance is firmly rooted in the economic order rather than in any independent cultural order'* (Williams, 1979: 58). Mae ffactorau economaidd wedi chwarae rhan fawr mewn sawl enghraifft o ddyfudiad iaith e.e. yn achos y Llydaweg ochr yn ochr â'r Ffrangeg; y Māori a'r Saesneg; y Gernyweg a'r Saesneg. Dywed Hoffmann:

'In many bilingual communities, personal wealth, professional standing ... are seen as attributes of the high-status group, so that if members of the minority language group wish for upward mobility, improved living standards and/or a share of power, they relate these feelings to the need ... to change one's language'
(Hoffmann, 1991: 191).

Yn ôl Conklin a Lourie (1983), un o'r ffactorau sydd yn annog cynnal iaith leiafrifol yw bod cyflogaeth ar gael yn yr iaith honno. Os oes cyflogaeth ar gael yn yr iaith leiafrifol, daw'r gallu i siarad yr iaith frodorol honno â manteision economaidd i'r unigolyn.

b. Manteision addysgol a deallusol

Amlinella Peal a Lambert (1962) fanteision deallusol dwyieithrwydd;

'Intellectually ... two language systems seems to have left him with a mental flexibility, a superiority in concept formation, and a more diversified set of mental abilities, in the sense that the pattern of abilities developed by bilinguals was more heterogeneous. ... there is no question about the fact he is superior intellectually.' (Peal a Lambert, 1962: 20).

Yn ôl Cyfrifiad 2001, o'r 685,368 o bobl a nododd nad oedd ganddynt gymhwyster academaidd, nid oedd gan 548,048 (80%) ohonynt sgiliau yn y Gymraeg (Ystadegau Gwladol, 2004: 21). Ymysg y 59,110 o bobl 25-34 oed a nododd nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau, nid oedd gan 50,878 (86%) wybodaeth o'r Gymraeg (Ystadegau Gwladol, 2004: 21). Cafwyd gwahaniaethau hefyd rhwng lefel cymwysterau academaidd a sgiliau yn y Gymraeg. Yn 2008, roedd gan 36% o Gymry Cymraeg gymhwyster academaidd Lefel 4 neu uwch o gymharu â 26% o Gymry di-Gymraeg (gwefan StatsCymru). Ymddengys fod pobl sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn fwy tebygol o feddu ar gymhwyster academaidd.

Cymhelliant Integreiddiol

'An integrative motivation is about social or interpersonal reasons for second language learning or minority language activity. Integrative motives reflect a desire to be like, or identify with members of a particular language community.'

(Baker, 1998: 651)

a. Manteision Diwylliannol

Disgrifia Bloch a Trager (1942) y berthynas rhwng iaith a diwylliant:

'Language... is not only an element of culture itself: it is the basis for all cultural activity' (1942: 5). Daw'r gallu i siarad ail iaith â manteision diwylliannol i'r unigolyn. Yr iaith Gymraeg, felly, yw'r allwedd sydd yn agor y drws i ddiwylliant Cymru. Cymraeg yw iaith yr eisteddfodau, cân llawer o gorau yn Gymraeg. Edrydd Ostler:

'Different languages protect and nourish the growth of different cultures, where different pathways of human knowledge can be discovered. They certainly make life richer for those who know more than one of them.' (Ostler, 2005: 558)

b. Hunaniaeth Ethnig a Hunaniaeth Bersonol

'...language is not just an instrument of communication. It is also a symbol of social or group identity, an emblem of group membership and solidarity.' (Grosjean, 1982: 117)

Yn Neddf Iaith Malteg (2005), pwysleisir pwysigrwydd yr iaith wrth greu ymdeimlad o berthyn i'r genedl: *'Maltese is the language of Malta and a fundamental element of the national identity of the Maltese people.'*

(Llywodraeth Malta, 2005: 3). Yn y ddogfen *'20-Year Strategy for the Irish Language'*, nodir: *'...Irish serves the identity needs of Irish people, whether or not they speak the language.'* (Fiontar, 2009: 9). Edrydd

Amorrortu am rôl yr iaith Fasgeg wrth greu hunaniaeth a dylanwad hynny ar ddysgu'r iaith:

'Against previous conceptions of Basque ethnicity based on race, the language was going to be the integrative most important element of Basque distinctiveness, which produced a desire to learn L2 Basque not only among native families who had not transmitted the minority language during the dictatorship, but also among recent immigrants who wished to integrate into the host community.' (Amorrortu, heb ei ddyddio)

Yn ogystal â diffinio hunaniaeth ethnig, gall iaith leiafrifol fod yn ffactor allweddol wrth greu hunaniaeth bersonol. Gall anallu i siarad iaith arbennig greu ymdeimlad o fod yn 'anghyflawn'. Teimla rhai Cymry di-Gymraeg yr angen i ddysgu Cymraeg er mwyn bod yn 'Gymry go iawn'. Esbonia Crystal:

'...the language 'badge' may be so important, locally, that people who lack it may feel seriously deprived, and demand urgent remedial work' (Crystal, 2000: 125).

c. Cymdeithasu â siaradwyr eraill

Rhesymau cymdeithasol sydd gan rai dros ddysgu ail iaith. Darganfu Beauford Research (2003) mai un o'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros ddysgu Cymraeg oedd i gymdeithasu â'r bobl leol.

Yn ôl Baker (1995), gall nifer o wahanol ffactorau ddylanwadu ar ddewis rhieni o gyfrwng addysg:

'Bilingual education derives its raison d'être not only from a concern to save the Welsh language from further diminution, but also from educational, economic, social, cultural and political reasons. Perceived success in public examinations, the beliefs of some in the extra commitment of teachers and relatively pleasant ethos of such schools, the utilitarian hopes that Welsh language skills will enhance job opportunities... and the concern to preserve a variety of Welsh cultural forms, are some of the reasons for the continuing growth of bilingual secondary education' (Baker, 1995: 162)

Isod edrychir ar y gwahanol ffactorau a all ddylanwadu ar rieni wrth ddewis cyfrwng addysg i'w plant.

Manteision Dwyieithrwydd Cynnar

Daw sawl gwaith ymchwil (Ellis, 1994; Singleton, 1989) i'r casgliad bod manteision i ddwyieithrwydd a bod manteision i ddysgu ail iaith yn ifanc. Noda Ellis: *'There is a widely-held lay belief that younger L2 learners generally do better than older learners'* (1994: 484). Mantais dysgu ail iaith yn ifanc yw bod y plentyn yn 'gaffaelydd' iaith yn hytrach na 'dysgwr'. Gwahaniaetha Ellis (1994) rhwng caffael iaith a dysgu iaith yn y modd canlynol:

'The former takes place subconsciously as a result of understanding what has been said (or written) in communication, and clearly corresponds to informal learning. The latter, which involves conscious attention to linguistic forms, corresponds to formal learning' (Ellis, 1994: 215).

Yn ôl Singleton (1989) tuedda plant sydd yn caffael ail iaith yn ifanc gyflawni lefelau uwch o hyfedredd na phlant sydd yn dysgu iaith. Cred Schinke-Llano (1989) y gall caffaelydd ail iaith ddefnyddio'r iaith honno gyda'r un safon o hyfedredd â pherson brodorol. Honna na fydd gan 'ddysgwr ail iaith' yr un feistrolaeth. Os mai'r nod yw meistrolaeth frodorol, pwysleisia Lightbown a Spada (1999) bwysigrwydd caffael iaith yn ifanc:

'When the objective of second language learning is native-like mastery of target language, it is usually desirable for the learner to be completely surrounded by the language as early as possible.' (Lightbown a Spada, 1999: 68).

Mantais arall bod yn gaffaelydd iaith yw meistrolaeth ffonolegol. Daw gwaith ymchwil i ynganu (Asher a Garcia, 1969; Oyama, 1976) i'r

casgliad bod gan bobl sydd yn dysgu ail iaith fel plant acenion mwy brodorol na phobl sydd yn dysgu ail iaith fel oedolion. Edrydd Ellis, *'only child learners are capable of acquiring a native accent in an informal learning context.'* (1994: 492).

Gall y ffaith bod ysgolion cynradd Cymraeg yn meithrin dwyieithrwydd cynnar a chreu plant dwyieithog fod yn ffactor pam y dewisa llawer o rieni addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant. Noda Amorrortu (heb ei ddyddio) bod rhieni sydd am i'w plant ddysgu'r Fasgeg yn ffafrio addysg drochol:

'Most parents prefer to send their children to Basque full immersion schools because these are the ones that can better guarantee learning of Basque.' (Amorrortu, heb ei ddyddio).

Ymddengys mai ysgolion cyfrwng Estoneg sydd yn creu plant dwyieithog yn Estonia. Edrydd Rannut:

'...Estonian schools are highly valued among Russian parents, who are increasingly seeking opportunities to help their children become bilingual.' (Rannut, 2006: 83-84)

Ymddengys fod rhieni sydd am i'w plant fod yn ddwyieithog mewn iaith uchel ac iaith leiafrifiol yn fwy tebygol o osod eu plant mewn ysgolion sydd yn darparu addysg trwy gyfrwng yr iaith leiafrifol.

Yn ogystal â gwell meistrolaeth ar yr iaith ac acen fwy brodorol, ymddengys y daw dwyieithrwydd â manteision eraill i'r unigolyn yn ogystal.

Manteision Gwybyddol

Daw gwaith ymchwil i'r casgliad bod gan blant dwyieithog fanteision gwybyddol o'u cymharu â phlant uniaith. Gall y manteision hynny gynnwys:

- meddwl mwy creadigol (Kessler a Quinn, 1987; Lambert, 1977).
Yn ôl May *et al.* (2004), dengys tystiolaeth bod gan bobl sydd yn gytbwys ddwyieithog sgiliau meddwl dargyfeiriol uwch o'u cymharu â phobl uniaith a phobl nad ydynt yn gytbwys ddwyieithog.
- gwell ymwybyddiaeth feta-ieithyddol, sef ymwybyddiaeth o systemau iaith (Cummins, 1987).
- gwell ymwybyddiaeth eirfaol. Daeth Ianco-Worrall (1972) i'r casgliad bod plant dwyieithog yn gallu gwahaniaethu rhwng ystyr a sain yn iau na phlant uniaith: '[bilingual children] *reach a stage of semantic development, as measured by our test, some two-three years earlier than their monolingual peers*'. (1972: 1398).
- gwell ymwybyddiaeth gystrawennol, sef y gallu i nodi a chywiro gwallau mewn brawddegau (Galambos a Goldin-Meadow, 1990). Noda May *et al.* wrth sôn am eu ymchwil:

'When noting and correcting their errors, the bilinguals progressed faster than the monolinguals and showed significant advantages at all ages tested.' (May *et al.*, 2004: 31).

- bod yn fwy sensitif. Honnir bod plant dwyieithog yn fwy sensitif i anghenion gwrandawyr na phlant uniaith (Genesse *et al.*, 1975).

Crynhua Grosjean fanteision gwybyddol dwyieithrwydd:

'Bilinguals are more sensitive to semantic relations between words, are more advanced in understanding the arbitrary assignment of names to referants, are better able to treat sentence structure analytically, are better at restructuring a perceptual situation, have greater social sensitivity and greater ability to react more flexibly to cognitive feedback, are better at rule discovery tasks and have more divergent thinking.'

(Grosjean, 1982: 223).

Manteision Economaidd

Darganfu Henley a Jones (2000) bod Cymry dwyieithog yn ennill rhwng 8% a 10% yn fwy na Chymry uniaith Saesneg, a hynny oherwydd eu sgiliau dwyieithog. Mae'n bosib felly, y gall ymwybyddiaeth rhieni o well cyfleoedd yn y gweithle ac o fanteision economaidd eu gwyro tuag at ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant. Edrydd Rannut (2006) am sefyllfa debyg yn Estonia:

'Since 1992 the educational level and average salary of Estonian-speakers have been higher than those of non-speakers, ...' (Rannut, 2006: 83)

Manteision Deallusol ac Addysgol

'Bilingual children are far more likely to get top-grade passes in exams in all subjects...those who were encouraged to continue studying their native language were five times as likely to achieve five top grade A to C grade passes at GCSE.'*

(Garner, 2006)

Dengys gwaith ymchwil ar addysg ddwyieithog (Holobow et al., 1987; Swain & Lapkin, 1991) bod plant dwyieithog yn tueddu i wneud yn well na phlant uniaith yn y cwricwlwm ac i berfformio'n well mewn profion ac arholiadau:

'studies have consistently shown that immersion students do as well and may even surpass, comparable non-immersion students on measures of verbal and mathematics skills' (Met, 1993).

Ymddengys fod disgyblion cyfrwng-Cymraeg yn cyflawni'n well na disgyblion cyfrwng-Saesneg mewn pynciau eraill ar draws Cyfnodau Allweddol 1-4. Dengys canlyniadau profion athrawon Cyfnod Allweddol 1 (CA1), CA2 a CA3 bod canran uwch o ddisgyblion cyfrwng-Cymraeg yn cyrraedd y lefel disgwylidig ym mhob un o'r pynciau craidd o'i cymharu â chanran disgyblion cyfrwng-Saesneg (Tabl 8).

Tabl 8: Cyfrannau cyfartalog o ddisgyblion Cymru sydd yn cyrraedd y lefel disgwylidig neu uwch yn ôl pwnc yn 2009.

Pwnc Craidd	CA1 (Lefel 2+)		CA2 (Lefel 4+)		CA3 (Lefel 5+)	
	Ysgolion Cymraeg	Ysgolion Saesneg	Ysgolion Cymraeg	Ysgolion Saesneg	Ysgolion Cymraeg	Ysgolion Saesneg
Saesneg	----	84	83	81	77	70
Cymraeg Iaith Gyntaf ⁵	90	-----	80	-----	75	-----
Mathemateg	88	87	84	83	78	74
Gwyddoniaeth	91	90	88	87	80	76
Dangosydd Pwnc Craidd	83	81	80	77	69	61

(Gwefan StatsCymru)

⁵ Nid yw'r Gymraeg yn bwnc craidd mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg

Dengys canlyniadau TGAU hefyd fod canran uwch o ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn ennill TGAU A*-C (neu lefel gyfatebol) mewn pum pwnc o'i cymharu â chanran disgyblion cyfrwng-Saesneg.

Tabl 9: Canrannau a enillodd 5 TGAU A*-C neu fwy (neu lefel gyfatebol) yn ôl cyfrwng dysgu.

Blwyddyn	Ysgolion Cymraeg	Ysgolion Saesneg
2008/09	67	55
2007/08	66	54
2006/07	64	53

(Gwefan StatsCymru)

At hynny, mae plant sydd yn mynychu ysgolion cyfrwng-Cymraeg yn fwy tebygol o ennill cymwysterau yn y pynciau craidd (Gwyddoniaeth, Saesneg, Mathemateg a Chymraeg⁶). Rhwng 2006/07 a 2008/09, enillodd canran uwch o ddisgyblion ysgolion Cymraeg gymwysterau yn y pynciau craidd o'i chymharu â chanran disgyblion ysgolion cyfrwng-Saesneg (Tabl 10):

Tabl 10: Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl cyfrwng dysgu.

Blwyddyn	Ysgolion Cymraeg	Ysgolion Saesneg
2008/09	49	38
2007/08	53	43
2006/07	56	44

(Gwefan StatsCymru)

⁶ Nid yw Cymraeg yn bwnc craidd mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg

Os edrychir ar ganlyniadau TGAU ysgolion uwchradd mewn ardal benodol yn Sir Gaerfyrddin, gwelir bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y canran sydd yn cyrraedd Trothwy Lefel 2 (5 TGAU gradd A*-C) yn yr ysgol gyfrwng-Cymraeg a chanrannau ysgolion cyfrwng-Saesneg yr ardal.

Tabl 11: Dangosyddion Perfformiad Ysgolion - CA4.

	Bryngwyn		Coedcae		St John Lloyds		Strade	
	2008	2009	2008	2009	2008	2009	2008	2009
Canran disgyblion yn cyrraedd Trothwy Lefel 2	48	68	51	47	52	63	76	72
Canran disgyblion yn cyrraedd Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg	44	56	35	37	45	52	66	69
Canran disgyblion yn cyrraedd cymhwyster Lefel 2 ym mhob pwnc craidd	41	54	35	37	38	46	66	70

(Gwefan StatsCymru)

Gall nifer o wahanol newidynnau gyfrannu at y gwahaniaethau a welir rhwng cyraeddiadau disgyblion ysgolion cyfrwng-Cymraeg a disgyblion ysgolion cyfrwng-Saesneg e.e. cefnogaeth rhieni; dosbarth sosio-economaidd; adnoddau dysgu neu gyfleoedd allgyrsiol megis clybiau mathemateg/gwyddoniaeth. Ond, yng ngoleuni'r dystiolaeth ymchwil ddiweddaraf i ddwyieithrwydd teg yw gofyn, ai'r manteision a ddaw drwy fod yn ddwyieithog sydd yn peri i ddisgyblion ysgolion cyfrwng-Cymraeg gyflawni'n well na'u cyfoedion uniaith?

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith mai plant cytbwys ddwyieithog sydd yn elwa o fanteision dwyieithrwydd (hynny yw plant sydd â sgiliau uchel mewn dwy iaith).

Esbonia Damcaniaeth y Trothwy (Cummins, 1976; Toukoma a Skutnabb-Kangas, 1977) y cysylltiad rhwng cymhwysedd ieithyddol a manteision gwybyddol. Er mwyn portreadu'r ddamcaniaeth defnyddir llun tŷ â thri llawr gyda dwy ysgol iaith yn pwyso ar y naill ochr a'r llall (yn Baker, 1993). Mae gan blant ar y llawr gwaelod gymhwysedd ieithyddol is na'r oed-priodol yn y ddwy iaith. Ni cheir manteision gwybyddol na deallusol ar y lefel hon. Mae'n debygol y bydd plentyn ar y llawr hwn o dan anfantais gwybyddol.

Cynrychiola'r llawr canol blant sydd â sgiliau ieithyddol oed-priodol mewn un iaith yn unig (fel person uniaith) tra bod yr ail iaith yn is na'r oed priodol. Ni fyddai gan blentyn ar y llawr hwn unrhyw fantais wybyddol o'i gymharu â phlentyn uniaith, ond ni welir unrhyw anfantais gwybyddol ychwaith (Baker 2001).

Ar y llawr uchaf mae'r plant sydd â sgiliau ieithyddol uchel yn y ddwy iaith, plant cytbwys ddwyieithog. Bydd gan y plant yma sgiliau ieithyddol oed-priodol yn y ddwy iaith. Dyma'r llawr, felly, lle ymddengys bod manteision gwybyddol ac addysgol i ddwyieithrwydd.

Cefnoga canlyniadau sawl ymchwil Ddamcaniaeth y Trothwy (Bialystok, 1988; Dawe, 1983; Clarkson, 1992). Edrydd Ricciardelli (1992)

ganlyniadau ei gwaith ymchwil hi:

'...the results were consistent with the theory, in that an overall bilingual superiority was found only for those children who had attained a high degree of bilingualism. An overall bilingual superiority was not found for those children who had attained lower degrees of bilingualism' (Ricciardelli, 1992).

Er mwyn i blentyn elwa, felly, o fanteision dwyieithrwydd, mae'n bwysig bod sgiliau ieithyddol y plentyn yn cael eu meithrin yn y ddwy iaith.

Gellir cymharu sefyllfa addysgu'r Gymraeg fel ail iaith ag addysgu

Estoneg fel ail iaith. Crynhoa Rannut:

'Most secondary school graduates from Russian-language schools do not have sufficient Estonian language skills to be competitive in the job market or to continue with their studies in Estonian' (Rannut, 2006: 83).

Ni chaiff sgiliau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng-Saesneg na sgiliau Estoneg mewn ysgolion cyfrwng Rwsieg eu meithrin yn ddigonol. Gall ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd a'r ffaith bod angen bod yn *gytbwys* ddwyieithog i elwa o'r manteision hyn ddylanwadu ar ddewis rhieni o gyfrwng addysg i'w plant. Er hynny, yn ôl y dystiolaeth ymddengys y gall ffactorau eraill heblaw manteision dwyieithrwydd ddylanwadu ar hynny hefyd. Isod, edrychir ar y ffactorau hynny.

Gwybodaeth Swyddogol

Ymddengys gall gwybodaeth swyddogol ar wahanol ysgolion helpu rhieni i ddewis ysgol. Er mai edrych ar y ffactorau a oedd yn dylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol uwchradd wnaeth Adler *et al.* (1989), maentumir bod darganfyddiadau'r ymchwil hwnnw yn berthnasol i'r ymchwil hwn. Darganfu Adler *et al.* (1989) bod prospectws ysgol yn aml yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i rieni, ond mai nifer fechan o rieni a gâi brospectws oddi wrth fwy nag un ysgol, ac mai nifer fechan o rieni, gan gynnwys rhieni a gasglodd fwy nag un prospectws, a gymharai ganlyniadau arholiadau.

Yn ôl Willms (1997), caiff gwybodaeth swyddogol ei gwerthfawrogi'n fwy gan rieni o ddsbarth cymdeithasol uchel o'u cymharu â rhieni o ddsbarth cymdeithasol isel. Meddai Willms:

'Parents of higher socio-economic status were more likely to value information obtained from teachers and headteachers, from school meetings and through visits to the school.' (1997:3).

Gall anwybodaeth ynglŷn â sut y datblygir sgiliau llythrennedd yn yr iaith gyntaf a'r ail iaith mewn perthynas â'i gilydd beri i rai rhieni symud eu plant o un cyfrwng i gyfrwng arall rhwng gwahanol gyfnodau dysgu. Darganfu McKinley (2000) yn Seland Newydd mai pryderon oedd yn deillio o ddiffyg gwybodaeth ynglŷn â datblygiad ieithyddol plant a berodd i rai rhieni symud eu plant o addysg cyfrwng Māori i addysg cyfrwng-Saesneg: *'...parents moved their children because they were concerned with their child's poor English-language development'*

(2000:36). Ychwanega: '*...parents began to be concerned about their children's English-language development at a time when the teachers were still consolidating their children's literacy skills in the Māori language.*' (McKinley, 2000: 37). Esbonia May *et al.* (2006) sut y cred rhai rhieni y bydd dysgu gormod o'r ail iaith yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad yr iaith gyntaf:

'There is a feeling that 'too much' Māori may undermine the learning of English. However, because of the principle of language interdependence, it is actually the opposite that is true. Learning to speak, read and write in Māori means that students are more likely to succeed academically in both Māori and English. The skills student learn in Māori will also help them with their English.' (May *et al.*, 2006: 3).

Mae'n bwysig, felly, addysgu rhieni sut y caiff dwyieithrwydd ei fethrin mewn plentyn. Dywed McKinley; '*... parents need to be informed of bilingual-language development and what that means for their children and their literacy development in the 2 languages.*' (McKinley, 2000: 37). Esbonia Baker: '*In the absence of knowledge, prejudices, innuendos, false claims and fabrications can flourish*' (1985: 10).

laith y Cartref

Edrydd Packer a Campbell (1997) fod Cymry Cymraeg yn dueddol o ddanfôn eu plant i ysgol Gymraeg oherwydd mai dyna'r peth 'naturiol' i'w wneud. Nododd un o atebwyr eu hymchwil: '*Ry'm ni'n deulu Cymraeg, mae'n beth naturiol*' (1997: 5). Er hynny nid yw pob rhiant sydd yn siarad Cymraeg yn cefnogi addysg cyfrwng Gymraeg:

'The mere fact that Welsh parents are themselves Welsh-speakers does not of course mean that they would automatically support Welsh-medium education' (Khleif, 1980: 166).

Yn ôl Packer a Campbell (1997), er bod rhagor a rhagor o rieni di - Gymraeg yn dewis gosod eu plant mewn ysgol gyfrwng-Cymraeg, gall y ffaith mai Saesneg yw iaith y teulu beri i rai rhieni osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg:

'It was clear that the consideration of Welsh-medium education simply had not entered into the picture for a majority of the parents with children at the English-medium schools, as most said the option was "irrelevant to the family's needs", "because we do not speak Welsh", or "we would not be able to help with the work". (Packer a Campbell, 1997: 13).

Enw da'r ysgol a disgyblaeth

Tra bod addysg Gymraeg wedi bod, ar y cyfan felly, yn ddewis 'naturiol' i Gymry Cymraeg, ymddengys mai un o'r ffactorau sydd wedi ac sydd yn parhau i ddenu llawer o blant o gefndiroedd di-Gymraeg yw enw da'r ysgolion Cymraeg am lwyddiant academaidd:

'...Welsh medium schools have a reputation as highly successful educational institutions, and considered this to be a probable factor, likely to affect parents without a strong cultural affinity to things Welsh.' (Packer a Campbell, 1997: 3).

Mae disgyblaeth hefyd yn ffactor pwysig iawn i rieni. Edrydd Packer a Campbell: *'Positive regard for the quality of school discipline was frequent'* (1997: 6). Ymddengys y gallai rhai rhieni ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg oherwydd eu bod yn canfod ysgolion cyfrwng-Cymraeg "yn well" nag ysgolion cyfrwng-Saesneg.

Statws yr iaith

Noda Skutnabb-Kangas: *'Minority languages often have a low status by comparison with majority languages'* (1981: 16). Gall barn gyffredin fod gan y Gymraeg statws isel o'i chymharu â ieithoedd eraill ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol: *'...the idea that "Welsh has no value outside Wales" may affect some parents, especially those who recognise foreign-language learning as important, but do not value the currency of the Welsh language'* (Packer a Campbell, 1997:16). Nododd un rhiant yn yr ymchwil hwnnw *'...while I support the idea of a bilingual school, French would be my choice rather than Welsh'* (Packer a Campbell, 1997: 13). Gall statws iaith, felly, ddylanwadu ar agweddau rhieni at yr iaith, ac effeithio ar eu hawydd i'w plant ddysgu'r iaith. O ganlyniad, gall statws iaith ysgogi neu wrthdroi ei dyfudiad. Edrydd Amorrortu (heb ei ddyddio) am bwysigrwydd codi statws yr iaith Fasgeg drwy gynllunio corpwys fel rhan o'r broses i'w hadfywio:

'The previous stigmatization of Basque among monolingual Spanish speakers, and even many bilingual speakers, had to be reversed. In order for Basque to be prestigious and for monolingual Spanish speakers to be motivated to learn it, government intervention promoted, among other, instrumental reasons, requiring individual bilingualism for certain positions in the public administration. Basque had to be declared co-official so authorities could implement measures favouring Basque. The only way to promote local languages in a situation where Spanish was the only official language was to make them co-official.' (Amorrortu, heb ei ddyddio).

Agweddau ac ymrwymiad rhieni at yr iaith

Cred Gardner (1958) bod agweddau rhieni at gymdeithas yr ail iaith yn gallu dylanwadu ar blant sydd yn dysgu'r iaith honno. Edrydd Bartram:

'In Gardner's view, a positive parental disposition towards France/French speakers, for example would support the 'integrative orientation' (motivation arising from a desire for social alignment with the language speakers) of a child learning French, while a negative attitude would inhibit this.'

(Bartram, 2006: 213).

Sonia McKinley (2000) am ddylanwad agweddau rhieni Māori wrth ddewis cyfrwng addysg i'w plant:

'...desirable education was academic and Pākehā; education which recognised other values was therefore inferior; "culture" was for "brown" people' (McKinley, 2000: 35).

Mae'n fwy tebygol y bydd rhieni sydd ag agwedd positif ac ymrwymiad cryf i'r Gymraeg eisiau i'w plant ddysgu'r iaith o'u cymharu â rhieni sydd ag agwedd negyddol a/neu ymrwymiad gwan. Yn ôl data a gasglwyd o arolwg yn 2008, nododd 93 (84%) o Gymry Cymraeg eu bod yn teimlo'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' bod yr iaith Gymraeg yn berthnasol i fywyd modern o gymharu â 295 (39%) o Gymry di-Gymraeg a holwyd (Beauford Research Limited, 2008: 2). Er yr ymddengys bod gan siaradwyr Cymraeg agwedd fwy positif at yr iaith o'u cymharu â Chymry di-Gymraeg, yn ôl tystiolaeth a gasglwyd wrth ysgolion yr ymchwil hwn, mae rhai rhieni sydd yn medru'r Gymraeg ond heb ymrwymiad cryf at yr iaith, yn gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg.

Mae agweddau personol hefyd yn un o'r ffactorau a all ddylanwadu ar ddysgu iaith. Ymysg rhieni di-Gymraeg, gall yr ymdeimlad o fod wedi 'colli ma's' eu hunain drwy beidio â gallu siarad Cymraeg eu hysgogi i ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant. Noda Grosjean:

'In a community where different language groups coexist, language attitudes play an important role in the lives of users of these languages ... Negative or positive attitudes toward a language can have profound effects on the users of the language. One effect concerns learning the language'.

(Grosjean, 1982: 117-118, 123).

Mynediad i'r ysgol

Darganfu Noble (2007) bod lleoliad yr ysgol a phellter yr ysgol o gartref y teulu neu'r gweithle yn gallu dylanwadu ar ddewis rhieni o 'Early Childhood and Education Care' (ECEC) yn Awstralia. Darganfu McKinley (2000) mai agosrwydd yr ysgol i'r cartref oedd prif reswm rhieni Māori dros ddewis ysgol cyfrwng-Saesneg. Dengys gwaith ymchwil Packer a Campbell (1997) hefyd bod lleoliad ysgol wedi bod yn ffactor a ddylanwadodd ar nifer o rieni a ddewisodd ysgol cyfrwng-Saesneg i'w plant yng Nghymru. Noda Packer a Campbell: *'Many thought it was more important that a school should be convenient to home, and allow a base for neighbourhood friendships,...*' (Campbell a Packer, 1997: 13). Esbonia Sheppard (2009) bod rhieni cefnog yn fwy tebygol o ddewis ysgol ar sail ei record academaidd yn hytrach na'i lleoliad, lle bydd rhieni llai ariannog yn fwy tebygol o ddewis ysgol sydd yn agos i'w cartref.

Hunaniaeth

Noda McKinley (2000) bod ysgolion cyfrwng Māori yn apelio at rieni sydd yn gwerthfawrogi bod yr iaith Fāori yn elfen hanfodol o'u hunaniaeth. Cysyllta llawer o Gymry ymdeimlad o berthyn i'w cenedl

â'r gallu i siarad y Gymraeg. Yn ôl Conklin a Lourie (1983), un o'r ffactorau sydd yn cynnal iaith yw pan gaiff hunaniaeth ethnig ei ddiffinio drwy'r iaith. Noda Crystal: *'Language is the primary index, or symbol, or register of identity'* (2000: 40).

Dosbarth Cymdeithasol y Teulu

Darganfu Packer a Campbell (1997) bod rhai rhieni yn dewis peidio â danfon eu plant i ysgol gyfrwng-Cymraeg oherwydd eu bod o'r farn mai rhywbeth i bobl 'dosbarth canol' ydyw. Nododd un rhiant: *'it's a middle class thing... some people think they're special using a different school'* (Packer a Campbell, 1997: 14). Ymateb rhiant arall oedd: *'the middle classes around here tend to send their children to private schools and to the Welsh schools'* (Packer a Campbell, 1997: 14). Os caiff ysgolion Cymraeg eu hystyried yn ysgolion i Gymry dosbarth canol, mae perygl o ynysu cyfran fawr o'r boblogaeth:

'...these schools have been dubbed by their detractors as the 'snob' schools, i.e. enviably successful schools, because the 'best' people send their children to them' (Khleif, 1980: 124).

Barn Teulu a Ffrindiau

Gall teulu a ffrindiau ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol. Esbonia Willms (1997) bod rhieni, er eu bod yn ystyried gwybodaeth swyddogol yn ffynhonnell bwysig wrth ddewis ysgol i'w plant, yn dibynnu llawer ar wybodaeth a ddaw i law trwy ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol

eraill. Daeth Noble (2007) i gasgliad tebyg. Darganfu Noble bod dewis rhieni yn gallu cael ei ddylanwadu gan farn pobl eraill:

'Data analysis revealed that parent choice was influenced by the opinion of others within the social context. In this instance parents gathered information about the attributes of different ECEC services and how other parents have experienced those services. They sought opinions of other parents rather than gaining information from a direct source. Their choice of service was guided by hearsay, rather than making a choice independently according to market information available.'

(Noble, 2007: 5-6).

Awgryma hyn fod rhieni, er gwaethaf y dystiolaeth o blaid manteision dwyieithrwydd a chanlyniadau profion athrawon ac arholiadau TGAU, yn gallu cael eu dylanwadu i beidio â gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg gan ffrindiau a/neu deulu. Ar y llaw arall, gall teulu a ffrindiau annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant. Dengys Lewis (1999) sut y gall y normau cymdeithasol symud i ddau gyfeiriad gwrthgyferbyniol o fewn proses 'normadol-ailaddysgol'.

Lefel Addysg Rhieni

Gofynnodd academyddion o Brifysgol Bryste (Shepherd, 2009) i 11,533 o rieni a oedd yn dewis ysgol uwchradd i'w plant i esbonio eu rhesymau dros ffafrio un ysgol dros ysgol arall. Darganfuant bod perthynas rhwng cymwysterau rhieni a'r ffactorau a ddylanwadai ar eu dewis o ysgol. Roedd;

- dwy ran o bump o'r rhieni a oedd heb gymwysterau academaidd wedi nodi pellter yr ysgol o'r cartref fel rheswm o gymharu â 20% o rieni oedd â gradd.
- un o bob wyth o'r rhieni a oedd heb gymwysterau academaidd wedi nodi 'llwyddiant academaidd yr ysgol' fel rheswm o gymharu â dwy ran o bump o'r rhieni oedd â gradd.

Gall un ffactor neu gyfuniad o wahanol ffactorau ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol a chyfrwng addysg i'w plant. Ymchwiliodd McKinley (2000) i'r ffactorau a ddylanwadodd ar rieni Māori wrth ddewis ysgol a chyfrwng addysg. Darganfu bod tua chwarter o'r rhieni a holwyd wedi ystyried ysgol arall cyn gwneud eu dewis terfynol. Y prif resymau dros ddewis addysg cyfrwng-Saesneg oedd:

1. yr ysgol a ddewiswyd oedd yr ysgol agosaf i'r cartref
2. aelodau eraill o'r teulu ym mynychu'r ysgol
3. enw da'r ysgol
4. ni hoffai'r rhieni yr ysgol/ion lleol arall

Y rhesymau mwyaf poblogaidd dros ddewis ysgol 'kura kaupapa Māori' (ysgolion trochi cyfrwng Māori) oedd:

1. eisiau addysg drochol Māori i'w plant
2. eisiau i'w plant ddysgu'r iaith a 'tikanga' (diwylliant) Māori
3. eisiau i'w plant adeiladu ar beth wnaethant ddysgu yn y kōhanga reo (ysgol feithrin).
4. aelodau eraill o'r teulu yn mynychu'r ysgol

Ni fydd gan bob rhiant yr un rheswm/rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg i blentyn. Ond fel esbonia Packer a Campbell:

'Cyhyd ag y bydd ysgolion Cymraeg yn cael eu hystyried yn nhermau symudolaeth dosbarth i un grŵp o rieni, fel sefydliadau sydd yn cynnig patrwm o addysg safonol, draddodiadol i grŵp arall, yn ffrwd gynhaliol ddiwylliannol i'r Cymry-Cymraeg ac yn fynegiant o elitaeth i garfanau eraill, bydd eu dyfodol fel ffenomen hynod yn y Gymru gyfoes yn ddiogel am amser hir iawn' (Packer a Campbell, heb ei ddyddio).

PENNOD 3

Methodoleg

Ar gyfer yr ymchwil presennol, dewiswyd tair ysgol oedd yn cynnig modelau gwahanol o ddarpariaeth ieithyddol, sef ysgol cyfrwng-Cymraeg (Categori 1 – Ysgol A), ysgol cyfrwng-Saesneg (Categori 5 – Ysgol B) ac ysgol lle ceir dewis cyfrwng addysg, sef ysgol dwy-ffrwd (Categori 2 – Ysgol C⁷).

Penderfynwyd holi rhieni y tair ysgol gyda'r bwriad o dargedu rhai oedd â phlant yn y dosbarth derbyn. Dengys Tabl 12 isod niferoedd y disgyblion oedd ym mhob ysgol gyda'r nifer oedd ym mhob un o'r dosbarthiadau derbyn.

Tabl 12: Niferoedd yn ysgolion A, B ac C

	Ysgol A	Ysgol B	Ysgol C	
			Ffrwd A	Ffrwd B
Nifer y plant yn yr ysgol/ffrwd	436	221	136	40
Nifer y disgyblion yn y dosbarthiadau derbyn	65	32	43	13

Penderfynwyd mai cynnal arolwg fyddai'r dull mwyaf pwrpasol o gasglu data. Byddai cyfweld pob rhiant wedi bod yn ddelfrydol gan fod cyfweiliadau yn gallu cynhyrchu llawer o ddata ansoddol ac yn rhoi cyfle i'r ymchwilydd holi cwestiynau ymestynnol. Yn anffodus, oherwydd

⁷ Defnyddir y termau 'Ysgol Ca' (Ysgol C ffrwd Gymraeg) ac 'Ysgol Cb' (Ysgol C ffrwd Saesneg) i wahaniaethu rhwng y ddwy ffrwd.

cyfyngiadau amser a phrinder adnoddau dynol, nid oedd cynnal cyfweliadau yn ddull ymarferol yn yr achos hwn: *'Researchers must employ methods that are fit for the purpose of the research they are undertaking'* (British Education Research Association (BERA), 2004: 11). Penderfynwyd casglu data drwy ddull holiadur (Atodiad 3). Sonia Oppenheim (1992) am fanteision y dull hwn o gasglu data: *'... [use of self administered questionnaires] ensures a high response rate, accurate sampling and a minimum of interviewer bias..'* (1992: 103). Addaswyd y cwestiynau yn ôl yr angen ar gyfer y tair ysgol.

Edrydd Evans (1984): *'It is both unwise and discourteous for an outsider to make arrangements for research in a school without first obtaining the consent of the local authority through its Chief educational officer'* (1984: 5). Cysylltwyd, felly, â Chyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol. Gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Addysg (Atodiad 4) cysylltwyd yn ddiweddarach â'r tri phennaeth. Esboniwyd iddynt bwrpas y gwaith ymchwil a phwysleisiwyd y byddai enwau'r ysgolion, unrhyw ddata a gasglwyd a'r canlyniadau a ddeuai o'r ymchwil yn cael eu cadw'n gyfrinachol: *'The confidential and anonymous treatment of participants' data is considered the norm for the conduct of research'* (BERA, 2004: 8). Noda Evans (1984): *'Permission to carry out research must always be obtained in advance of starting it, and nothing should ever be done without the knowledge and consent of the head and any other members of staff who may be affected.'* (1984: 5). Gyda chaniatâd y

Cyfarwyddwr Addysg a'r tri phennaeth, aethpwyd ati i gynnal yr ymchwil.

Peilotwyd yr holiadur cyn ei ddsbarthu i'r rhieni. Rhestra Evans (1984) fanteision peilota holiadur:

'...it gives a chance to practise administering the tests... facility is gained, and the chance of making a mistake which would spoil the whole investigation is decreased. ...it may bring to light any weaknesses in the procedure of administration. Instructions to the subjects can be amended if they are found to be ambiguous or incomprehensible. ...Unsatisfactory methods of recording information can be improved, and generally, the process of testing can be improved, and can be made as simple and foolproof as possible'. (Evans, 1984: 39).

Er mwyn lleihau costau a sicrhau ymateb uchel, penderfynwyd gofyn i athrawon dosbarth y tair ysgol ddsbarthu a chasglu'r holiaduron wrth rieni eu dosbarthiadau perthynol. Dosbarthwyd holiaduron uniaith Saesneg i rieni plant yr ysgol a'r ffrwd cyfrwng-Saesneg a holiaduron Saesneg a Chymraeg i rieni'r plant a dderbyniai eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â holiadur, rhoddwyd esboniad byr o bwrpas y gwaith ymchwil ac amlen i bob rhiant i ddychwelyd ei holiadur. Gwnaethpwyd hynny er mwyn sicrhau cyfrinachedd ymatebion y rhieni. Er mwyn annog rhieni i fod yn gwbl agored yn eu hatebion ac i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y data, caniatwyd i'r holiaduron fod yn anhysbys. Felly, ni ofynnwyd i'r rhieni ysgrifennu eu henwau ar yr holiadur.

I osgoi cael ymatebion megis *'Does dim dewis cyfrwng gyda ni'*, dewiswyd y tair ysgol yn ofalus. I ddarganfod faint o ddylanwad a gafodd cyfrwng yr addysg ar ddewis rhieni, dewiswyd ysgol Categori 1 ac ysgol Categori 5 oedd yn agos iawn i'w gilydd ac o fewn cyrraedd i rieni o fewn yr un 'dalgyllch'. Holwyd rhieni felly a oedd wedi dewis, yn fwriadol neu beidio, un cyfrwng dros y llall. Roedd gan rieni'r ddwy ysgol ddewis amlwg o ran cyfrwng addysg, a thrwy ddewis un ysgol yn hytrach na'r llall, roeddent yn dewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dewiswyd ysgol dwy-ffrwd ieithyddol (Categori 2) oedd mewn pentref yn hytrach nag mewn tref. Gwnaethpwyd hynny, er mwyn lleihau'r dewis o ysgolion. Roedd disgwyl i blant y pentref hwnnw fynd i Ysgol C, oherwydd mai honno oedd ysgol dalgyllch y pentref. Yr hyn oedd gan rieni'r pentref hwn i benderfynu, felly, oedd p'un ai gosod eu plant yn y ffrwd Gymraeg neu yn y ffrwd Saesneg. Fel rhieni Ysgol A ac Ysgol B, roedd gan rieni Ysgol C ddewis o gyfrwng addysg.

Gofynnwyd yr un cwestiynau i rieni'r tair ysgol heblaw am un cwestiwn ychwanegol a ofynnwyd i rieni disgyblion Ysgol C, sef *'Fasech chi wedi rhoi'ch plentyn yn Ysgol C petai'r ysgol ond yn cynnig naill ai addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg?'* (Cwestiwn 29). Cynhwysai'r holiadur gwestiynau caeëdig e.e. *'Dderbynioch chi unrhyw wybodaeth gan yr AALI ar ddewis ysgol gynradd i'ch plentyn?'*, lle'r oedd gofyn i rieni ddewis ateb e.e. Do/naddo, a chwestiynau agored e.e. *'Beth oedd eich prif reswm dros ddewis Ysgol X yn hytrach nag ysgol arall?'*, lle'r oedd

gan y rhieni ryddid i ateb fel y dymument. Gofynnwyd iddynt hefyd ar raddfa Likert nodi cryfder gwahanol ffactorau ar eu penderfyniad wrth ddewis ysgol, i dicio i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau a nodi a oeddent yn credu bod datganiadau eraill yn wir neu'n gau. Tynnwyd datganiadau un a thri Cwestiwn 30 o 'Iaith Pawb' (LICC, 2003: 11) a thynnwyd datganiad pedwar Cwestiwn 30 o 'Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2009' (LICC, 2009a: 172). Er mwyn osgoi dylanwadu ar atebion y rhieni, ni ddatgelwyd ffynonellau'r datganiadau hynny.

Dychwelwyd cyfanswm o 92 o holiaduron o'r 153 a ddsbarthwyd sef 60% o'r sampl gwreiddiol (Tabl 13).

Tabl 13: Nifer yr holiaduron a gwblhawyd

	Ysgol A	Ysgol B	Ysgol C	
			Ffrwd A	Ffrwd B
Nifer yr holiaduron a gwblhawyd	34 (52%)	23 (72%)	22 (51%)	13 100%

Er mwyn trafod unrhyw faterion a godai o ganlyniadau'r ymchwil, trefnwyd cyfweiliad â phob un o'r tri Phennaeth. Cyfweiliadau hanner-strwythuriedig oedd y rheiny. Addaswyd y cwestiynau yn ôl yr angen ar gyfer pob Pennaeth (Atodiad 5).

Mantais mabwysiadu cyfweiliad hanner-strwythuriedig yw bod gan y cyfwelydd ryddid os dymuna i ofyn cwestiynau ymestynnol. Noda Bell:

'A skilful interviewer can follow up leads, probe responses and investigate motives and feelings, which the questionnaire can never do' (1985: 21).

Er mwyn derbyn eglurhad pellach ar faterion amrywiol a pherthnasol i'r ymchwil, siaradwyd â swyddog yn y Cyngor Sir ac astudiwyd dogfennau'r Cyngor Sir parthed y wybodaeth a ddarperid i rieni.

'In order to guard against being misled, either in interview or by documents, you must check one informant against another, and test what they say against any documents which exist.' (Nisbet, 1989: 85)

Wedi dadansoddi'r data, rhoddwyd copi o'r canlyniadau i'r penaethiaid.

Noda Evans:

'The head of a school and any teachers who have helped with a research project may be interested to know what results have been obtained, and they may find some of the information gained useful to them in their own work.' (1984: 52).